

Tyfu Canolbarth Cymru

Mae cyfleoedd yn tyfu yma



Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

Tyfu Canolbarth Cymru

Mae cyfleoedd yn tyfu yma

Cynnwys

Rhagair	3
Bargen Twf Canolbarth Cymru	4
Ein Blaenoriaethau Twf Strategol	5
Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)	6
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru	7
Tim Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru	8
Cipolwng ar economi'r Canolbarth	9



Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

Rhagair



Y Cyngorydd Bryan Davies

Arweinydd Cyngor Sir
Ceredigion Council



Y Cyngorydd James Gibson-Watt

Arweinydd Cyngor Sir Powys

Fel Arweinwyr ein Cyngorau, a chyd-gadeiryddion Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, rydym wedi ymrwymo ar y cyd i hybu twf economaidd rhanbarthol mewn partneriaeth a sicrhau ffocws ar heriau a chyfleoedd y Canolbarth.

Rydym yn falch o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers sefydlu Tyfu Canolbarth Cymru am y tro cyntaf yn 2015. Mae rhanddeiliaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol i gydweithio at bwrpas cyffredin – i hwyluso a chyflymu twf economaidd drwy un weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth yn y rhanbarth.

Fodd bynnag, rydym mewn hinsawdd heriol yn barhaus mewn sawl ffordd (yn economaidd, yn gymdeithasol ac amgylcheddol) – ac mae angen canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cefnogi busnesau a thrigolion Canolbarth Cymru drwy'r bennod nesaf. Mae'n hollbwysig inni ganolbwyntio ar gefnogi adferiad economaidd sy'n gynaliadwy ac ar gyfer y tymor hir.

Byddwn yn parhau i weithio'n lleol ac yn rhanbarthol gyda'n gilydd, o waith Partneriaeth Sgiliau Canolbarth Cymru, Trafnidiaeth Ranbarthol a Phartneriaeth TCC i helpu i nodi a dyrchafu materion o bwysigrwydd strategol gyda Llywodraethau a'n rhanddeiliaid rhanbarthol.

Mae hefyd yn hanfodol bwysig ein bod yn defnyddio'r holl ffynonellau cyllid sydd ar gael i'r ddwy awdurdod yn lleol, yn gyfochrog â chronfeydd rhanbarthol yr ydym wedi cydweithio arnynt yn hanesyddol gyda chronfeydd yr UE, cyllid adfywio a'r Fargen Dwf.

Mae Bargaen Twf Canolbarth Cymru yn rhan fawr o'n cydweithrediad rhanbarthol, gyda'r rhaglenni a'r prosiectau yn edrych i greu hwb economaidd rhanbarthol amcangyfrifedig o rhwng £570 a £700 miliwn dros gyfnod o 10 i 15 mlynedd, yn ogystal â dros 1,100 o swyddi.

Yr her i ni, a'n partneriaid cyflawni fydd sicrhau bod yr uchelgeisiau hyn bellach yn cael eu cefnogi i sicrhau effeithiau cadarnhaol yn ein cymunedau. Rydym wedi gwybod ers tro bod cyfle yn tyfu yma yn y Canolbarth, a nawr yw'r amser i'w wireddu.

BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU

Mae'r Fargen Dwf yn fuddsoddiad hirdymor sy'n darparu cyllid cyfalaf i gefnogi seilwaith economaidd rhanbarthol arwyddocaol sy'n sbarduno buddsoddiad gan y sector preifat ac yn ysgogi twf. Fe'i cefnogir gan ymrwymiad o £110 miliwn gan Lywodraethau'r DU a Chymru a'i nod yw creu swyddi hirdymor, cynyddu cynhyrchiant a chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sbarduno adferiad a thwf economaidd ledled y rhanbarth.

Mae'r Fargen Dwf yn rhan o Weledigaeth ehangach ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru, a bydd yn cyfrannu law yn llaw â chasgliad o strategaethau a buddsoddiadau eraill o'r sectorau cyhoeddus a phreifat fel rhan o ddull cyfannol o ddod â ffyniant i gymunedau a busnesau'r rhanbarth. Disgwylidddi bara am rai blynyddoedd a chaiff ei rheoli fel 'Portffolio' gyda chyfres gychwynnol o raglenni a phrosiectau ar y rhestr fer yn cael eu datblygu sy'n cwmpasu amrywiaeth o gynigion buddsoddi sy'n cyd-fynd â'r wyth maes twf blaenoriaeth a nodwyd yn y 'Weledigaeth'.

Yn ogystal, bydd disgwyl i'r rhaglenni a'r prosiectau a gefnogir gan y Fargen Dwf arwain at fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach, megis gwell ansawdd bywyd, cyfleoedd busnes yn dilyn effaith COVID-19, datgarboneiddio mewn diwydiant ac ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Caiff y Portffolio ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y rhanbarth ac i alluogi i gynigion eraill gael eu hystyried. I gael trafodaeth gychwynnol ar gynigion, cysylltwch â thîm datblygu economaidd eich Awdurdod Lleol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Cathy Martin, Rheolwr Gweithrediadau Tyfu Canolbarth Cymru cathy.martin@ceredigion.gov.uk

Creu rhwng

1,100^a
1,400

o swyddi newydd yng Nghanolbarth Cymru drwy'r Fargen Dwf

erbyn 2032.

Cefnogi cynnydd net ychwanegol mewn gwerth ychwanegol gros o rhwng

£570 miliwn^a
£700 miliwn

ar gyfer Economi Canolbarth Cymru drwy'r Fargen Dwf

erbyn 2032.



Sicrhau cyfanswm buddsoddiad o hyd at

£400
miliwn

yn Economi Canolbarth Cymru drwy'r Fargen Dwf

erbyn 2032.

"Rhanbarth mentrus a nodedig sy'n cyflawni twf economaidd sy'n cael ei lywio gan arloesedd, sgiliau, cysylltedd a swyddi mwy cynhyrchiol sy'n cefnogi cymunedau ffyniannus a dwyieithog"



TRAFNIDIAETH CANOLBARTH CYMRU (TraCC)

Partneriaeth drafnidiaeth yw Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (Trac) sy'n cynnwys tri Awdurdod Lleol Canolbarth Cymru (Ceredigion, Gwynedd a Phowys).

Ers 2003, mae Trac wedi dwyn ynghyd swyddogaethau priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus y tri awdurdod lleol i ddarparu atebion rhanbarthol penodol i faterion trafndiaeth integredig lleol. Mae TraCC wedi dod â sefydliadau partner allweddol at ei gilydd hefyd i drafod, datblygu a dylanwadu ar bolisi rhanbarthol a chenedlaethol ar lefel strategol.

Mae rhwydweithiau trafndiaeth dibynadwy, cydnerth, cynaliadwy a chysylltiedig yn hanfodol bwysig i dwf economaidd a chymunedau yn y Canolbarth. Mae seilwaith o ansawdd da yn hanfodol i gysylltu pobl â chyfleoedd, cwmnïau â marchnadoedd a chyflenwad llafur. Mae heriau o ran cludo nwyddau a phobl yn deillio o faint, pellter a phatrwm gwasgareddig aneddiadau yn y Canolbarth.

Ein nod yw cael system drafnidiaeth ranbarthol integredig a fforddiadwy sy'n hwyluso twf economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb at wasanaethau a chyfleoedd, yn cynnal ac yn gwella ansawdd cymunedau, ac yn cefnogi'r newid i ddyfodol carbon isel.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Ann Elias, Rheolwr Prosiectau a Rhaglenni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC ann.elias@ceredigion.gov.uk

Mae gan y rhanbarth

945 km (587 milltir)

o gefnffyrdd a ffyrdd A sy'n cysylltu'r rhanbarth â Gogledd a De Cymru ac i'r dwyrain i Orllewin Canolbarth Lloegr.

Mae **2** goridor rheilffordd yn gwasanaethu'r rhanbarth - Prif reilffordd y Cambrian a rheilffordd Calon Cymru.



PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn perthyn o dan faner ehangach Tyfu Canolbarth Cymru. Mae'n bartneriaeth a arweinir gan fusnesau'n bennaf, gan weithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ledled y rhanbarth i ddeall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur er mwyn sbarduno buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithlu. Mae'r Bartneriaeth yn cefnogi strategaethau a meysydd polisi allweddol Llywodraeth Cymru drwy ddarparu safbwynt rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys data sylfaenol ar gyfer cynllunio addysg bellach gan ddefnyddio gwybodaeth a arweinir gan gyflogwyr a data gwybodaeth am y farchnad lafur.

Mae'r Bartneriaeth yn pontio'r bwlch rhwng addysg ac adfywio yn y gobaith o greu economi gref a bywiog wedi'i hategu gan arloesedd, twf a gweithlu galluog. Mae Bwrdd y Bartneriaeth, a sefydlwyd gan Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys, yn edrych ar feysydd allweddol i sbarduno twf economaidd a buddsoddi yn y sgiliau cywir.

Mae'r flaenraglen waith ar gyfer y Bartneriaeth yn cynnwys:

- **Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Tair Blynedd 2022-25**
Bydd y Cynllun yn nodi sectorau, sgiliau a blaenoriaethau cyflogaeth allweddol ar gyfer y rhanbarth, yn unol â chynlluniau economaidd rhanbarthol, gan gynnwys Bargeinion Twf.
- **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)**
Sicrhau bod y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn parhau i fod yn gyfredol ac yn diwallu anghenion cyflogwyr a sectorau yn y rhanbarth.
- **Addysg Bellach a Phrentisiaethau**
Nodi hyd at bum sector blaenoriaeth a'u gofynion sgiliau i hysbysu'r cyrff addysg bellach er mwyn datblygu prentisiaethau ar gyfer blwyddyn academiaidd 2023-2024.
- **Y Gymraeg**
Dadansoddi a nodi anghenion mewn sectorau penodol ac allweddol i alluogi'r sector addysg a hyfforddiant i gynllunio ac ymateb yn effeithiol i ofynion cyflogwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth RSP Canolbarth Cymru aggie.caesar-homden@powys.gov.uk

95,400

o bobl mewn cyflogaeth yn y Canolbarth, gyda chyfraddau gweithgarwch economaidd yn unol â chyfartaleddau Cymru a'r DU, wedi'u sbarduno gan lefelau uchel o hunangyflogaeth.

Mae 12,660 o fusnesau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TAW yn y Canolbarth. Mae gan y sylfaen fusnes gyfran uchel iawn o ficrofusnesau, mwy na 95% gyda llai na 10 o weithwyr.

Mae lefelau diweithdra yn y rhanbarth yn gymharol isel, sef

3.9%

ym mis Ionawr 2022, bron i hanner y raddfa ar gyfer Cymru a'r DU, ac mae'r rhanbarth wedi gweld gwelliant mwy yn nifer y di-waith o'i gymharu â Chymru ers 2001.



TÎM YMGYSYLLTU RHANBARTHOL CANOLBARTH CYMRU

Mae Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn un o bedwar tîm ymgysylltu rhanbarthol ledled Cymru a sefydlwyd i sicrhau bod cynigion ariannu'r UE yn bodloni cyfleoedd a buddsoddiadau yn y rhanbarth nawr ac yn y dyfodol. Gan weithio ar draws pob sector, mae'r tîm yn sicrhau cyfranogiad effeithiol a llwyddiant buddsoddiadau a ariennir gan yr UE, gan ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau presennol ac arfaethedig gyda gweithgareddau a chyfleoedd rhanbarthol a thematig sefydledig a rhai sy'n datblygu.

Mae'r tîm yn darparu pwynt cyfeirio a chyngor rhanbarthol parhaus i randdeiliaid mewnol ac allanol hefyd wrth sicrhau bod canlyniadau'n cael eu cyflawni ar draws y rhanbarth, yn unol ag uchelgeisiau a gweledigaeth strategol y rhanbarth.

Mae'r tîm yn cyflawni'r swyddogaethau strategaeth, cynllunio ac ymgysylltu i gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Canolbarth Cymru. O ran ymgysylltu, yn ogystal â hwyluso ymgysylltu ar draws sectorau ledled y rhanbarth er mwyn sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd ag uchelgeisiau strategol y rhanbarth, mae'r tîm yn rheoli ac yn cydlynu gweithgarwch Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ac yn hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth.

Mae Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn bartneriaeth economaidd ranbarthol eang a chynhwysol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r bartneriaeth yn ceisio cynrychioli buddiannau a blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer gwella ein heconomi a darparu arweiniad rhanbarthol ar y weledigaeth economaidd ar gyfer y Canolbarth.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Claire Miles, Rheolwr Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru claire.miles@ceredigion.gov.uk

O dan raglenni ariannu presennol yr UE, cynorthwywyd

3,040

o fentrau a chrëwyd

1,630

o fentrau hyd yma yng Nghanolbarth Cymru

Crëwyd **5,050**

o swyddi mewn mentrau a gefnogir o dan y rhaglen gyfredol

Hyd yma, mae'r Rhaglenni presennol a ariennir gan yr UE yn y Canolbarth wedi helpu dros

3,260 o gyfranogwyr i gael gwaith,

1,350 i gyflawni dysgu pellach ac mae

13,195 wedi ennill cymhwyster.



Delwedd trwy garedigwydd AberInnovation

CIPOLWNG AR ECONOMI'R CANOLBARTH



Cryfderau Nodedig:

- Amaethyddiaeth
- Bwyd a Diod
- Twristiaeth
- Gweithgynhyrchu Gwerth Uwch
- Asedau Amddiffyn a Diogelwch

Yn cynhyrchu:

- £3.6bn o GYC bob blwyddyn
- £17,509 GYC y pen

- 205,000 o bobl
- 95,400 yn gyflogedig
- % sy'n gyflogedig > cyfartaledd Cymru

- Cartref i ddwy Brifysgol (Aberystwyth a'r Drindod Dewi Sant)
- Cartref i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (hefyd yn cynnig cyrsiau AU)
- Mae 95% o ymchwil Aberystwyth yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol
- Mae cyrhaeddiad addysgol ar Lefel 2 7.5% yn uwch na chyfartaledd Cymru.
- 38.8% o breswylwyr ag NVQ4+

- 6966 cilomedr² o dir (39% o Gymru)
- Yn denu 7.25m o ymwelwyr yn flynyddol i dirweddau naturiol a diwylliannol eithriadol y rhanbarth.




Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

Cyswllt:

 growingmidwales@ceredigion.gov.uk

 twitter.com/GrowingMidWales

 www.tyfuacanolbarth.cymru

 www.linkedin.com/company/growing-mid-wales



UNDEB EWRGFEAID
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfeydd Strwythurol a
Buddsoddi Ewropeaidd**
**European Structural
and Investment Funds**